

Ymgynghoriad ffurfiol i sefydlu canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion gydag Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis

23 Tachwedd 2022 –
6 Ionawr 2023

Crynodeb Cyffredin – Fersiwn Plant a
Phobl Ifanc

Os hoffech gael yr wybodaeth hon ar unrhyw ffurf arall er enghraifft braille neu brint bras, neu os hoffech gael help gan ddehonglydd iaith arall, cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwlwch school.reorg@newport.gov.uk

Cymraeg

If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language, please contact Newport City Council on 01633 656656 or by emailing school.reorg@newport.gov.uk

Saesneg

如果您希望以其他格式獲取以上信息，例如凸字及大字體印刷，或者如您有口語翻譯的需求，請與新港市市政府聯繫。電話：01633 656656 郵箱 school.reorg@newport.gov.uk

Cantoneg

Pokud byste chtěli tyto informace v libovolném jiném formátu, například braillovém písmu nebo velkém tištěném textu nebo pomoci s tlumočením v jiném jazyce, kontaktujte Newport City Council na čísle 01633 656656 nebo e-mailem school.reorg@newport.gov.uk

Tsieceg

اگر شما این اطلاعات را در فرمت دیگر می خواهید مثلاً بریل (الفباء نابینایان) یا چاپ بزرگ یا کمک به تفسیر در زبان دیگر، لطفاً با شورای شهر Newport City Council school.reorg@newport.gov.uk یا به این ادرس ایمیل کنید 01633 656656 تماس بگیرید

Ffarsi

Ha szeretné ezt az információt másmilyen formátumban, például Braille-írással vagy nagybetűvel nyomtatottan vagy szeretne fordítást különböző nyelven akkor legyen szives kapcsolatba lépni a Newporti Tanáccsal a 01633 656656 telefonszámon vagy emailezzen a school.reorg@newport.gov.uk

Hwngareg

Jej norite gauti aukščiau pateiktą informaciją kitais formatais, pvz., "Brailio raštu" ir dideliu šriftu spausdinimu, arba jei turite žodinį vertimą, susisieki su Niuporto miesto vyriausybe. Ffôn: 01633 656656. Elektroninis Paštas: school.reorg@newport.gov.uk

Lithwaneg

如果您希望以其他格式获取以上信息，例如盲文及大字体印刷，或者如您有口语翻译的需求，请与新港市市政府联系。电话：01633 656656 邮箱：school.reorg@newport.gov.uk

Mandarin

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'em czy dużym drukiem, lub pomoc przy tłumaczeniu w innym języku, prosimy o kontakt z Urzędem Miasta Newport na 01633 656656 lub wysyłając maila na school.reorg@newport.gov.uk

Pwyleg

Se você quiser essa informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou impressão em letra grande, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, entre em contato com a Câmara Municipal de Newport através do número 01633 656656 ou enviando um email para school.reorg@newport.gov.uk

Portiwgeeg

Dacă doriți această informație în alt format, de exemplu Braille sau în format mare, sau ajutor cu interpretarea în alta limbă, vă rugăm să contactați Newport City Council la numărul de telefon : 01633656656 sau prin e-mail-ul: school.reorg@newport.gov.uk

Rwmaneg

Если вы хотите получить вышеуказанную информацию в других форматах, таких как шрифт Брайля и большой шрифт, или если у вас есть необходимость в устном переводе, обратитесь в управление города Ньюпорт. Тел: 01633 656656 Электронная почта : school.reorg@newport.gov.uk

Rwsieg

V prípade, že potrebujete tieto informácie v inom formáte, ako napríklad Brajlove písmo alebo veľká tlač alebo potrebujete pomoc s prekladom alebo tlmočením do iného jazyka, prosím kontaktujte Newport City Council na telefónnom čísle 01633 656656 alebo mailom na school.reorg@newport.gov.uk

Slofaceg

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, por favor póngase en contacto con el Ayuntamiento de Newport al 01633 656656 o por correo electrónico a school.reorg@newport.gov.uk

Sbaeneg

اگر آپ یہ معلومات کسی دوسری شکل میں حاصل کرنا پسند کریں گے مثال کے طور پر بریل (نابینا اشخاص کے لیے) یا بڑے پرنٹ میں یا دوسری سے اس نمبر پر رابطہ کریں Newport City Council میں ترجمے کے لیے تو برائے مہربانی نیوپورٹ سٹی کونسل 01633 656656 یا اس پتے پر ای میل کریں school.reorg@newport.gov.uk

Wrdw

Gellir trefnu i gael y wybodaeth hon mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen. Ffoniwch 01633 656656 i drefnu hynny.

Geirfa - ystyr rhai o'r geiriau yn y ddogfen hon:

Cynnig - Cynllun rydyn ni'n ystyried ei roi ar waith, ond heb benderfynu eto.

Anhwyllder ar y Sbectrwm Awtistig (ASA) - Anbledd datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd. Mae un o bob 100 o bobl ar y sbectrwm awtistig ac mae tua 700,000 o oedolion a phlant awtistig yn y DU.¹ Efallai y bydd rhywun ag ASA yn ei chael yn anodd cyfathrebu a rhyngweithio â phobl eraill. Efallai y bydd pethau fel goleuadau llachar a synau uchel yn eu llethu. Gallant fynd yn bryderus neu'n ofidus mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd ac efallai y bydd angen mwy o amser arnynt i ddeall pethau.

Canolfan ASA - Cyfleusterau a dosbarthiadau arbennig i ddisgyblion ag ASA fel eu bod yn gallu derbyn cefnogaeth ychwanegol.

Ymgynghoriad – Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ofyn cwestiynau a rhoi eu barn ar y cynnig.

Sesiwn Galw Heibio - Cyfarfod i drafod y cynllun. Nid oes angen apwyntiad a gallwch ymuno unrhyw bryd yn ystod y sesiwn.

Ysgolion Prif Ffrwd – Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ysgolion prif ffrwd ac maent yn darparu lleoedd ar gyfer disgyblion o'r ardal leol.

Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) - Dosbarthiadau mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion ag Anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cymorth ychwanegol. Gelwir y rhain weithiau yn dosbarthiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir - Disgybl yn mynychu ysgol neu ddsbarth arbennig mewn ardal wahanol, am nad oes digon o leoedd ar gael yng Nghasnewydd.

Cymorth allgymorth - Cymorth wedi'i ddarparu gan ysgol neu sefydliad arall yn y tymor byr neu'n rhan amser.

Cynnig Ad-drefnu Ysgol - Cynllun rydyn ni'n ystyried ei roi ar waith i agor/cau ysgol neu wneud newid mawr i ysgol.

Ystafell Synhwyrdd - Ystafell i helpu i ddatblygu synhwyrddau disgybl drwy oleuadau, synau a gwrthrychau.

¹ https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/what-is-autism?gclid=Cj0KCQiAyJOBbDCARIsAJG2h5feQGMwG3FDvir9vBbBa9OnXikqO3HTgUlcD7o8uoSvpQmNdMFBOcaAtEAEALw_wcB

Cyflwyniad

Mae nifer y disgyblion ledled Casnewydd sydd â diagnosis ffurfiol o Anhwyldeirau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) yn cynyddu. Er bod mwyafrif y disgyblion sydd â'r cyflwr hwn yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd gyda lefelau amrywiol o gymorth, mae disgyblion eraill angen darpariaeth fwy arbenigol i fodloni eu hanghenion.

Mae gan Gasnewydd ysgol benodol, Ysgol Bryn Derw, sydd ar gyfer disgyblion ag ASA yn unig. Mae'n darparu cymorth arbennig i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed, na ellir bodloni eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd. Nid pob disgybl ag ASA sydd angen mynd i ysgol arbennig, a gellir darparu ar gyfer llawer ohonyn nhw mewn dosbarthiadau arbennig mewn ysgolion prif ffrwd, a elwir yn ddosbarthiadau ADY, neu mewn dosbarthiadau mewn Canolfan Adnoddau Dysgu. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â nifer y lleoedd oedran uwchradd sydd ar gael mewn dosbarthiadau ASA arbennig mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae dosbarthiadau ADY mewn llawer o ysgolion cynradd Casnewydd, ond dim ond un ganolfan ASA sydd ar gyfer disgyblion oed uwchradd sydd yng Nghasnewydd, sef Ysgol John Frost, ac mae honno'n llawn. Mae Cyngor Dinas Casnewydd eisiau agor canolfan newydd i ddisgyblion ag Anhwyldeirau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis Medi 2023.

Er mwyn i'r ganolfan allu agor ym Medi 2023, mae angen cynnig ad-drefnu ysgol i sefydlu'r ganolfan newydd yn gyfreithlon. Yr ymgynghoriad hwn yw cam cyntaf y broses.

Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol hwn:

- **Yn dechrau ar 23 Tachwedd 2022**
- **Yn dod i ben ganol nos ar 6 Ionawr 2023**

Sut mae cymryd rhan?

Rydym yn awyddus i gael eich barn am y cynnig hwn. Gallwch gyflwyno unrhyw sylwadau a/neu gwestiynau gan ddefnyddio'r holiadur ar-lein sydd ar gael yn www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation, neu ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi ei chynnwys yn y llyfryn hwn.

Gallwch ddychwelyd eich ymatebion mewn e-bost i: school.reorg@newport.gov.uk neu anfon y ffurflen at y Swyddog Datblygu a Gwybodaeth am Addysg, Ystafell 425w, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd. NP20 4UR.

Cynhelir hefyd nifer o sesiynau galw heibio ac mae croeso i chi a'ch teuluoedd ddod i gwrrdd â swyddogion y cyngor i ddsygu mwy am y cynnig:

Tabl 1: Sesiynau Galw Heibio		
Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Sesiwn
Ysgol Uwchradd Llan-wern - Brif Neuadd Chwaraeon	Dydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022 09:15 – 10:30	Galw Heibio
Ysgol Uwchradd Llan-wern - Brif Neuadd Chwaraeon	Dydd Iau 15 Rhagfyr 2022 15:15 – 16:30	Galw Heibio

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ar 6 Ionawr 2023.

Y Broses Ymgynghori

Cam	Disgrifiad	Hyd
1	<p>Ymgynghoriad</p> <p>Cyn gwneud penderfyniad ar y cynnig, rydym yn rhoi cyfle i bobl ddysgu am y cynlluniau, holi cwestiynau, a rhoi gwybod i'r Cyngor beth yw eu barn.</p>	Tua 6-8 wythnos
2	<p>Adroddiad ar yr Ymgynghoriad</p> <p>Rydym yn casglu ynghyd yr holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod cam 1 ac yn eu rhoi mewn dogfen o'r enw 'Adroddiad ar yr Ymgynghoriad'. Mae sylwadau gan y Cyngor hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu'r Cyngor i wneud penderfyniad ynghylch a yw am symud i gam 3.</p>	Ar gael o leiaf bythefnos cyn i'r datganiad yng ngham 3 gael ei bostio.
3	<p>Hysbysiad Statudol</p> <p>Os yw'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen gyda'r cynnig, rhoddir hysbysiad ar wefan y Cyngor a'i bostio ar glwydi'r ysgol mae'r cynllun ar ei chyfer. Mae hyn yn golygu y gallwch wedyn ddweud a ydych yn hoffi'r cynnig. Os nad ydych am weld y cynlluniau yn mynd yn eu blaen, gallwch gyflwyno gwrthwynebiad.</p>	O leiaf 28 diwrnod (yn cynnwys 15 diwrnod ysgol)
4	<p>Adroddiad Gwrthwynebu</p> <p>Os na fydd unrhyw un yn dweud nad ydyn nhw am weld y cynlluniau yn mynd yn eu blaen, bydd y cynnig yn mynd yn syth i gam 5. Os yw pobl wedi dweud wrthon ni nad ydyn nhw'n hoffi'r cynnig, mae eu sylwadau'n cael eu rhoi mewn adroddiad arall, ynghyd ag ymatebion y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio i helpu'r Cyngor i wneud eu penderfyniad.</p>	Ar gael o fewn 28 diwrnod o ddiwedd cam 3
5	<p>Penderfyniad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl sylwadau a gafodd eu casglu a phenderfynu'n derfynol ar y cynnig.</p>	Gwneir y penderfyniad o fewn 16 wythnos o ddiwedd cam 3
6	<p>Hysbysiad o'r Penderfyniad</p> <p>Cyn gynted ag y caiff y penderfyniad ei wneud, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i bawb a fydd yn cynlluniau'n mynd yn eu blaen. Bydd y canlyniad ar gael ar wefan y Cyngor.</p>	

Y Cynllun

Y cynllun yw agor Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) ar gyfer 20 disgybl yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis Medi 2023.

Mae disgyblion ag ASA angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol. Mewn ysgolion cynradd prif ffrwd, mae'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu drwy'r dosbarth ADY neu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu. Mae 94 o ddisgyblion ag ASA mewn ysgolion prif ffrwd ar hyn o bryd.

Tabl 2: Disgyblion oed cynradd ag ASA mewn darpariaeth arbenigol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd – Mai 2022

Blwyddyn	Dosbarth Derbynn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm
2021/22	7	14	14	15	14	12	18	94

Pan ddaw'n bryd i'r disgyblion hyn symud i ysgol uwchradd, bydd angen cymorth ychwanegol ar rai ohonyn nhw, felly byddan nhw'n ymuno â Chanolfan ASA o fewn ysgol uwchradd. Ar hyn o bryd, dim ond Ysgol John Frost sy'n darparu Canolfan ASA ar gyfer disgyblion oed uwchradd mewn ysgol brif ffrwd, ac mae honno'n llawn. Mae'r tabl isod yn dangos sawl disgybl sydd yn y Ganolfan ASA yn Ysgol John Frost ar hyn o bryd.

Tabl 3: Niferoedd Disgyblion - Canolfan ASA Ysgol John Frost 2017 - 2022

Ysgol	Nifer o leoedd (2022)	2017 - 2018	2018 - 2019	2019 - 2020	2020 - 2021	2021 - 2022	Lleoedd ar gael 2021/22
Ysgol John Frost (Canolfan ASA)	20	12	20	20	23	25	-5

Os nad oes lleoedd ar gael yn y Ganolfan ASA yn ysgol John Frost, bydd yn rhaid i rai disgyblion fynd i ysgolion eraill mewn ardaloedd cyfagos i sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw. Gelwir y rhain yn Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac maen nhw'n gallu bod yn ddrud iawn. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i ddisgyblion deithio'n bellach i fynychu'r ysgol.

Mae'r Cyngor yn dymuno darparu rhagor o leoedd i ddisgyblion ag ASA yng Nghasnewydd. Bydd y Ganolfan ASA newydd yn Ysgol Uwchradd Llan-wern yn dechrau gyda 4 disgybl blwyddyn 7 a bydd pedwar disgybl arall yn ymuno bob blwyddyn tan i'r dosbarth gyrraedd 20 mewn nifer, hynny yw, o fewn 5 mlynedd.

Mae gan Ysgol Uwchradd Llan-wern eisoes y gofod sydd ei angen i gynnal y ganolfan hon, gan ei bod gynt wedi cynnig darpariaeth i 8 disgybl ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Bydd y dosbarth ASA newydd hwn yn golygu y bydd canolfannau ASA yn nwy ochr Casnewydd - y dwyrain a'r gorllewin - felly bydd disgyblion yn gallu mynd i ysgol sy'n agosach i'w cartrefi.

Beth fydd y dosbarth newydd yn ei gynnig?

Bydd gan y Ganolfan ASA staff sydd wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y disgyblion. Bydd gan y dosbarth fynediad ar fannau awyr agored, toiledau a chyfleusterau cegin. Bydd gan y dosbarth hefyd:

- Ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd ymdawelu
- Cyfleusterau Cegin
- Eu toiledau eu hunain
- Eu hardal awyr agored eu hunain
- Ardal gollwng ar gyfer bysys mini/tacsis
- Ystafell synhwyaidd

Cost

Unwaith y bydd yn llawn, bydd y ganolfan ASA yn costio tua £500,000 y flwyddyn (rhwng £25,000 a £27,000 fesul disgybl/leoliad).

Bydd costau i staff gael hyfforddiant arbenigol priodol er mwyn diwallu anghenion disgyblion. Gellir datblygu ac amserlennu llawer o'r therapiau mewn cyfleusterau yn Ysgol Bryn Derw.

Bydd cymorth arbenigol gan staff hyfforddedig ar gael drwy Gymorth Allgymorth Ysgol Bryn Derw, yn costio tua £40,000 y flwyddyn, a byddai'r gweithiwr Allgymorth yn cael ei ariannu drwy Gyllideb Datblygu Darpariaeth AAA Leol ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Opsiwn 1 - Parhau â'r cynllun ar gyfer canolfan ASA yn Ysgol Uwchradd Llan-wern. Byddai'r ganolfan ASA yn darparu addysg addas i'r disgyblion, gan fodloni anghenion y disgyblion tra'n ehangu darpariaeth ASA ledled y ddinas hefyd. Byddai angen ariannu'r ganolfan ASA drwy'r gyllideb ysgolion unigol. Bydd y ganolfan ASA yn lleihau'r nifer o ddisgyblion fyddai angen Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn y dyfodol, sydd â chost fras o £42,000 y flwyddyn fesul lleoliad (heb gynnwys trafndiaeth). Dyma'r opsiwn a ffeirir.

Opsiwn 2 - Parhau â'r cynllun ar gyfer canolfan ASA yn Ysgol Uwchradd Llan-wern, ond cael 20 o leoedd ar gael yn syth. Bydd hyn yn creu lleoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion hyn ym mlynnyddoedd 8-11 a gallai gynorthwyo disgyblion i drosglwyddo o ysgolion eraill neu leoliadau eraill. Ond gallai hyn effeithio ar obaith disgyblion Blwyddyn 6 o gael lle yn y dosbarth pan fyddan nhw'n symud i Flwyddyn 7. Byddai angen ariannu'r ganolfan ASA drwy'r gyllideb ysgolion unigol. Bydd y ganolfan ASA yn lleihau'r nifer o ddisgyblion fyddai angen Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn y dyfodol, sydd â chost fras o £42,000 y flwyddyn fesul lleoliad (heb gynnwys trafndiaeth).

Opsiwn 3 - Cael cynllun i agor canolfan ASA mewn ysgol uwchradd wahanol. Y cynllun yw cael canolfan ASA yn nwyrain y ddinas, yr un fath â'r ganolfan ASA yn Ysgol John Frost yng ngorllewin y ddinas. Ysgol Uwchradd Llan-wern yw'r lleoliad gorau, oherwydd y rhesymau a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon.

Opsiwn 4 – Symud pob disgybl i Leoliadau y Tu Allan i'r Sir. £42,000 yw cost pob lle y Tu Allan i'r Sir ar gyfartaledd ond mae prinder lleoliadau arbenigol ledled y rhanbarth. Byddai hyn yn golygu y byddai angen lleoliadau gwahanol a byddai'r rhain yn costio mwy na £42,000 y flwyddyn. Nid yw'r rhain yn cynnwys costau cludo.

Derbyn i'r ganolfan ASA

Ni fyddai disgyblion yn gallu gwneud cais am le yng nghanolfan ASA Ysgol Uwchradd Llan-wern drwy drefniadau derbyn arferol y Cyngor. Yn hytrach, byddai'r broses dderbyn yn seiliedig ar anghenion unigol yn dilyn asesiad gan y Tim Cynhwysiant Addysg.

Manteision ac Anfanteision

Mae manteision y cynnig hwn fel a ganlyn:

- ☺ Lleoedd ASA ar gael i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol;
- ☺ Lleihau'r nifer presennol o leoliadau y tu allan i'r sir a/neu'r nifer ohonynt yn y dyfodol;
- ☺ Llai o amser teithio i ddisgyblion sy'n mynd i leoliadau y tu allan i'r sir;
- ☺ Bydd canolfannau ASA ar ddwy ochr Casnewydd;
- ☺ Cyfleoedd posibl i ddisgyblion sydd yn mynd i Leoliadau y Tu Allan i'r Sir ar hyn bryd ddychwelyd a pharhau â'u haddysg yng Nghasnewydd.

Mae anfanteision y cynnig hwn fel a ganlyn:

- ☹ Bydd y cynnig yn golygu bod angen i Ysgol Uwchradd Llan-wern symud ei ddarpariaeth ADY anffurfiol i ran arall o'r ysgol a gallai hyn effeithio ar ddisgyblion eraill yn yr ysgol.

Effaith ar ddarpariaeth Gymraeg

Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd. Mae manylion y ffactorau a ystyriwyd wrth wneud y cynnig hwn wedi'u cynnwys yn yr Aseiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.

Holiadur – Ymatebion i'r Cynnig

Ymgynghoriad ffurfiol i sefydlu canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion gydag Anhwyllder Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis Medi 2023

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich barn ynghylch y cynllun drwy gwblhau'r holiadur ar-lein yn www.newport.gov.uk/addrefnuysgolion. Fel arall, gallwch gwblhau'r ffurflen hon a'i dychwelyd at y Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR neu s-bostio eich ymateb i school.reorg@newport.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos 6 Ionawr 2023. Ni fydd ymatebion negyddol a wneir i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

1) A ydych yn cefnogi'r cynnig i:

sefydlu canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwyllder Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis Medi 2023



Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i esbonio pa ran o'r cynnig nad ydych yn ei chefnogi

2) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Cadarnhaol Negyddol Dim effaith

3) Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?

4) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ydw Nac ydw

Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gofalwr plentyn sy'n mynychu ysgol feithrin leol)

--

Dewiswch eich grŵp Ethnig			
Gwyn Prydeinig		Asiaidd-Bangladeshaidd	
Gwyn Gwyddelig		Asiaidd-Indiaidd	
Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch): _____		Asiaidd-Pacistanaidd	
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig		Unrhyw gefndir Asiaidd arall	
Gwyn ac Asiaidd		Du Caribiaidd	
Gwyn a Du Affricanaidd		Du Affricanaidd	
Gwyn a Du Caribiaidd		Unrhyw gefndir Du arall	
Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch): _____		Arabaidd	
Asiaidd-Bangladeshaidd		Tsieinaidd	
Asiaidd-Indiaidd		Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch): _____	
Asiaidd-Pacistanaidd		Dewis peidio â dweud	

Y Gymraeg			
A ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?			
Ydw		Nac ydw	Dewis peidio â dweud

Cyfrifoldebau Gofalu			
Ydych chi'n gofalu am blant oedran ysgol?			
Ydw		Nac ydw	Dewis peidio â dweud
A ydych chi'n gofalu am blant oedran cyn-ysgol?			
Ydw		Nac ydw	Dewis peidio â dweud
A ydych chi'n gofalu am oedolyn dibynnol neu blentyn sy'n hŷn nag oedran ysgol?			
Ydw		Nac ydw	Dewis peidio â dweud

Os hoffech gael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nodwch eich manylion cyswllt isod:

E-bost: _____

Cyfeiriad post: _____